Y Pwyllgor Cydraddoldeb
a Chyfiawnder Cymdeithasol
—
Equality and Social Justice
Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

Dawn Bowden, Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol

14 Chwefror 2025

Annwyl Mark a Dawn,

Ar 10 Chwefror, gwnaethom drafod llythyr gan y Grŵp Cynghori Arbenigol ar Ofal Plant at y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol yn tynnu sylw at bryderon ynghylch y gyllideb ar gyfer gofal plant. Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu atoch i ofyn am eich barn mewn ymateb i'r pryderon hyn.

Yn ein hadroddiad, 'Eu Dyfodol: Ein Blaenoriaeth?', a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024, gwnaethom nodi'r angen am fuddsoddiad sylweddol mewn gofal plant i ddatblygu a gwella ansawdd, argaeledd a hygyrchedd y ddarpariaeth, gan gynnwys cyflwyno cam 3 y cynllun i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg.

A allwch roi sicrwydd y bydd dyraniad y Gyllideb Ddrafft yn ddigonol i alluogi'r gwaith o gyflwyno cam 3 y cynllun i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg i fynd rhagddo, ac i gyflawni'r ymrwymiad yn eich Rhaglen Lywodraethu i ehangu'r ddarpariaeth yn y blynyddoedd cynnar fesul cam i gynnwys pob plentyn 2 oed? O ystyried pwysigrwydd buddsoddi mewn gofal plant i ymdrin â thlodi plant, a allwch hefyd amlinellu pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ar y mater hwn?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r pwyntiau hyn cyn y ddadl derfynol ar y gyllideb a drefnwyd ar gyfer 4 Mawrth i roi cyfle i'r Aelodau drafod eich ymateb.

Yn gywir



**Jenny Rathbone AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Copi at: Jane Hutt, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol